PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, GWASANAETHAU OEDOLION

DYDD LLUN, 3 MEDI 2018

Yn bresennol: Cynghorwyr Bowen-Thomson, Elsmore, McKerlich a/ac Williams

1 : YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Graham Hinchey

2 : ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR

PENDERFYNWYD: Penodi'r Cynghorydd Susan Elsmore yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodi hwn ar gyfer Penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau Oedolion.

*(Y Cynghorydd Susan Elsmore yn y Gadair)*

3 : DATGAN BUDDIANNAU (OS O GWBL)

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

4 : CYLCH GORCHWYL

Nodi'r Cylch Gorchwyl a ganlyn:-

'Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor'.

5 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ynglŷn â'r eitem fusnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod y datgelid iddynt wybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i disgrifir isod:

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r Awdurdod; a

Paragraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn.

6 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, GWASANAETHAU OEDOLION

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei gynnull i ystyried y rhestr hir o ymgeiswyr ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau Oedolion.

Adolygodd y Pwyllgor y deuddeg cais a gyflwynwyd ar gyfer y swydd hon ac ystyriodd sut yr oedd ymgeiswyr yn bodloni'r galluoedd hanfodol o'r Fframwaith Galluoedd Ymddygiadol a'r proffil rôl; a nododd yr ymgeiswyr hynny i'w hargymell i fynd ymlaen i'r Ganolfan Asesu.

PENDERFYNWYD: Bod

(1) Ymgeiswyr 1, 2, 3, t ac 11 i gael eu cynnig i'r Ganolfan Asesu;

(2) y Pwyllgor i ailymgynnull ar gyfer 24 Medi 2018 am 4.00pm er mwyn ystyried yr adborth o'r Ganolfan Asesu a chytuno ar ba ymgeiswyr y dylid eu rhoi ymlaen i gael cyfweliad ar 8 Hydref 2018.

7 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses greu rhestr hir.

8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 24 MEDI 2018 AM 4.00PM